

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebost / email: [clerc.llansantffraed@btinternet.com](mailto:clerc.llansantffraed@btinternet.com)  
Tel: 01545 570323

**COFNODION HEB EU CADARNHAU**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd am 8.00 pm ar nos Fawrth, 6ed o Hydref 2015 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.**

Yn bresennol:

Cadeirydd: Cyng G Lewis  
Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, L Lloyd, D Morgan, I Reed a B Tomlins.  
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards.  
Mr Denfer Morgan (Clerc).

**1. Ymddiheuriadau / Materion Personol / Datgelu Buddianau Personol.**

Ymddiheurodd y Cadeirydd, y Cyng. Gerallt Lewis am fethu a dod i'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 24ain Medi gan ei fod wedi anghofio amdano'n llwyr ar y funud olaf.

**2. Cofnodion o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Medi 2015.**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1af Medi 2015 fel rhai cywir, yn amodol ar y cywiriadau canlynol:-

a) diwygio cofnod 6(d) i gofnodi fod y Cynghorwyr L Lloyd a I Reed wedi datgelu buddiant personol ac un sy'n rhsgfarnu yn y mater y cyfeirir ato tng Nghofnod 6(d) (Cais Cynllunio A150556) ac nid oeddent wedi cymryd rhan yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater dan sylw; a

b) diwygio cofnod 6(i) i gofnodi taw'r Cynghorwyr I Reed a B Tomlins cafodd eu hawdurdodi i fynd i Gyfarfod Blynnyddol a Chynhadledd Un Llais Cymru .

**UNCONFIRMED MINUTES**

**Minutes of a meeting of the Council held at 8.00 pm on Tuesday, 6<sup>th</sup> October 2015 at the Reading Room, Llanon.**

Present:

Chairman: Cllr G Lewis  
Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, L Lloyd, D Morgan, I Reed and B Tomlins.  
County Councillor Dafydd Edwards.  
Mr Denfer Morgan (Clerk).

**1. Apologies / Personal Matters / Disclosure of Personal Interests.**

The Chairman, Cllr. Gerallt Lewis apologised for not attending the Special Meeting held on 24<sup>th</sup> September as it had completely slipped his mind at the last minute.

**2. Minutes of the Meeting held on 1<sup>st</sup> September 2015.**

The Minutes of the Meeting of the Council held on 1<sup>st</sup> September 2015 were confirmed as being a correct record, subject to the following corrections:-

a) amending minute 6(d) to record that Councillors L Lloyd and I Reed had disclosed a personal and prejudicial interest in the matters referred to in Minute 6(d) (Planning Application A150556) and had not taken part in the discussion or voting thereon; and

b) amending minute 6(i) to record that Councillors I Reed and B Tomlins had been authorised to attend the One Voice Wales Annual Meeting and Conference.

### **3. Materion yn codi o'r Cofnodion.**

#### **3.1 Gwreiddyn Coeden ar Lwybr Troed ger Llwynteg**

CYTUNWYD gosod pyst yn y man yma er mwyn ymestyn y clawdd a gorchuddio'r stwmp.

#### **3.2 Llwybr yn arwain at y Maes Chwarae**

Nodwyd bod cyflenwad o 'scalpings' wedi cyrraedd ac wedi'u gosod ger y llwybr. CYTUNODD y Cynghorydd Lodwick Lloyd taenu'r 'scalpings' ar hyd y llwybr ac i ofyn i'r clwb peldroed os oeddent yn barod i roi cymorth.

#### **3.3 Chalet ym Morfa Esgob**

**PENDERFYNWYD** nodi nad oedd y person a oedd wedi codi'r mater yn wreiddiol am ei ddilyn i fyny ac i beidio a chymryd unrhyw gamau pellach.

#### **3.4 Banciau Ailgylchu Gwydr**

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorwyr H Hayfield a J Hughes i fynd gyda'r Clerc i gwrdd â Swyddog o'r Cyngor Sir.

#### **3.5 Mainc**

CYTUNWYD bod y Cynghorydd J Hughes yn cwrdd gyda'r teulu Davies a oedd wedi cael caniatad y Cyngor i osod maing er cof am eu tad ar lan y môr.

**3.6** Fe adroddodd y Cynghorydd I Reed ar y trafodaethau a phenderfyniadau a waned yng Nghyfrafol Blynnyddol a Chynhadledd diweddar Un Llais Cymru.

**3.7** CYTUNWYD gofyn i berchnogion ystad Graig Ddu i dorri gwrych y ffin.

**3.8** CYTUNWYD talu £100 am y byrddau picnic i'w gosod yn yr ardal ger y siop sgloidion.

### **4. Cofnodion o'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 24ain Medi 2015.**

Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 24ain 2015 fel rhai cywir.

### **5. Eiddo**

#### **(a) Adroddiad yr Arolygiad**

### **3. Matters arising from the Minutes.**

#### **3.1 Tree Stump on Footpath near Llwynteg**

It was AGREED to place posts at this point to extend the hedge to cover the stump.

#### **3.2 Track leading to the Playing Field**

It was noted that the supply of scalpings had been delivered and deposited near the track.

Councillor Lodwick Lloyd AGREED to spread the scalpings along the track and to ask the football club whether they were ready to help.

#### **3.3 Chalet at Morfa Esgob**

It was **RESOLVED** to note that the person who had originally raised the matter did not want to pursue the matter any further and to take no further action.

#### **3.4 Glass Recycling Banks**

It was **RESOLVED** to appoint Councillors H Hayfield and J Hughes to accompany the Clerk at the meeting with the County Council Officer.

#### **3.5 Bench**

It was AGREED that Councillor J Hughes meet with the Davies family who had received the Council's permission to place a bench on the seafront in memory of their father.

**3.6** Councillor I Reed reported upon the discussions and transactions at the recent One Voice Wales Annual Meeting and Conference.

**3.7** It was AGREED to request the owners of the Graig Ddu estate to cut the boundary hedge.

**3.8** It was AGREED to pay £100 for the picnic tables to be placed in the area near the chip shop.

### **4. Minutes of the Special Meeting held on 24th September 2015.**

The Minutes of a Special Meeting of the Council held on 24<sup>th</sup> September 2015 were confirmed as being a correct record.

### **5. Property**

#### **(a) Inspection Report**

Dyweddodd y Cynghorydd Dennis Morgan mai ef oedd wedi cynnal arolwg yn ystod y mis blaenorol ac nid oedd unrhyw beth i ddwyn i sylw'r Cyngor.

Councillor Dennis Morgan stated that he had undertaken last month's inspection and that there was nothing to report to the Council.

**(b) Cyfarpar Chawrae**

Cyfeiriodd y Clerc at yr adroddiad a dderbyniwyd gan Wicksteed yn dilyn eu harchwiliad blynyddol o'r cyfarpar chwarae yn y maes chwarae. Fe ddywedodd y Clerc ei fod ef a'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd I Reed, wedi cwrdd â swyddog Wicksteed ar y safle.

**PENDERFYNWYD** cyfeirio'r adroddiad at Gyngor Sir Ceredigion gan ofyn am bris am wneud y gwaith a argymhellir ynddo fe.

**(b) Playground Equipment**

The Clerk referred to the report received from Wicksteed following their annual inspection of the playground equipment. The Clerk advised that that he and Vice-Chairman, Councillor I Reed, had met the officer from Wicksteed on site.

It was **RESOLVED** to refer the Report to Ceredigion County Council seeking a price for undertaking the work being recommended therein.

**(c) Diweddariad ar y Gwaith Contract**

1 Adeiladu sied storio – nodwyd fod yr adeiladu yn mynd yn ei flaen.

2 Ailorchuddio'r cyrtiau tenis - dywedodd y Clerc ei fod wedi gofyn i'r Cyngor Sir osod chwyn laddwr ar y llain presennol cyn rhoi'r arwydd i'r contractwr i ddechrau'r gwaith.

**PENDERFYNWYD** hefyd gofyn i'r Clerc ymchwilio i'r posibilrwydd o gael gafael ar grant UE er mwyn gwella'r cyfleustra.

**(c) Up-date on the Contract Work**

1 Construction of a storage shed – it was noted that the construction was proceeding.

2 Resurfacing of the tennis courts - the Clerk stated that he had requested the County Council to spray weed killer on the current surface before advising the contractor to commence the work.

It was also **RESOLVED** to request the Clerk to investigate the possibility of accessing an EU grant to enhance the facility.

**6. Cyllid**

**PENDERFYNWYD:-**

i) talu A R Jones y swm o £175.39 parthed y gost o gyflenwi'r 'scalpings';

ii) talu'r canlynol:-

Ffi BDO LLP ar gyfer Archwiliad 2014-15  
£246

Ffi Archwilio Wicksteed - £85.20

Cyflogi'r Clerc (Gorff-Awst-Medi 2015):

Mr Denfer Morgan - £626.67

HMRC - 156.66

Lwfans y Clerc (trydan, ffôn, wifi) - £120

**6. Finance**

It was **RESOLVED:-**

i) to pay A R Jones the sum of £175.39 in respect of the cost of supplying the scalpings;

ii) to pay the following:-

BDO LLP 2014-15 Annual Audit Fee -  
£246

Wicksteed Inspection Fee - £85.20

Clerc's Employment (July-Aug-Sept 2015):

Mr Denfer Morgan - £626.67

HMRC - £156.66

Clerc's Allowance (electricity, phone, wifi) -  
£120

**7 Archwiliad Blynyddol 2014-15 a Threfniadau'r Dyfodol**  
**PENDERFYNWYD:**

**7 2014-15 Annual Audit and Future Arrangements**  
It was **RESOLVED:**

- i) cymeradwyo a derbyn y Ffurflen Ariannol Blynyddol;
- ii) nodi fod yr Hysbysiad wedi'i osod ar hysbysfwrdd y dref yn unol â'r gofynion statudol;
- iii) nodi cynnwys yr Adroddiad Materion yn Codi a'r ymrwymiad a roddwyd gan y Clerc y byddai'r Ffurflen Blynyddol yn cael ei gwblhau'n gywir yn y dyfodol;
- iv) cytuno cyflwyno adolygiadau o'r gyllideb ar adegau addas yn ystod y flwyddyn ariannol;
- v) nodi taw Grant Thorton fyddai'n gwneud yr archwiliad blynyddol o Gyfrifon y Cyngor yn ystod y cyfnod 2015-19.

## 7. Gohebiaeth ac Ymgynghoriadau

- (a) Dogfen Ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion: Polisi Gamblo Drafft **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y ddogfen.
- (b) Dogfen Ymgynghori Cyngor Sir Ceredigion: Polisi Cydraddoldebau  
Cynghorodd y Clerc fod yr holiadur yn fwy addas ar gyfer gael ei lenwi gan unigolion yn hytrach na chyrrff ac fe anogwyd yr Aelodau i'w gwblhau.
- (c) Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (dyddiad cau ar gyfer sylwadau – 9 Tachwedd): Cyfarwyddiadau Drafft Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.  
**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc ddod â phapur pellach i'r cyfarfod nesaf, gan gynnwys sylwadau Un Llais Cymru a chyrrff perthnasol eraill, os yn bosib.
- (d) Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (dyddiad cau ar gyfer sylwadau - 16 Tachwedd): Canllaw Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.  
**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y ddogfen.
- (e) Ystyried yr hysbysiad a dderbyniwyd oddi wrth Llywodraeth Cymru o'r cynigion i gyflwyno cyfyngiad cyflymder

- i) to approve and accept the Annual Return;
- ii) to note that the Notice had been placed on the town noticeboard in accordance with statutory requirements;
- iii) to note the contents of the Issues Arising Report and to note the undertaking given by the Clerk that the Return would be completed correctly in future;
- iv) to agree to introduce budget reviews at appropriate times during a financial year; and
- v) to note that Grant Thorton would be undertaking the annual auditing of the Council's Accounts during the period 2015–19.

## 7. Correspondence and Consultation Matters

- (a) Ceredigion County Council Consultation Document: Draft Gambling Policy  
It was **RESOLVED** to note the contents of the document.
- (b) Ceredigion County Council Consultation Document: Equalities Policy  
The Clerk advised that the questionnaire was more suited to be completed by individuals rather than organisations and Members were encouraged to complete it.
- (c) Welsh Government Consultation (deadline for responses – 9 November): Draft Directions to the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (the Commission)  
It was **RESOLVED** to request the Clerk to bring a further paper to the next meeting, to include the views of One Voice Wales and any other relevant organisations, if possible.
- (d) Welsh Government Consultation (deadline for responses – 16 November): Statutory Guidance for public bodies in fulfilling their duties under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.  
It was **RESOLVED** to note the contents of the document.
- (e) To consider the notification received from the Welsh Government of proposals to introduce a 20 mph speed limit on the

o 20 mya ar yr A487 yng nghyffiniau'r ysgol gynradd.

A487 in the vicinity of the primary school.

**8. Cyfyngiad Cyflymdra 20 mya Arfaethedig**

Cyfeiriodd y Clerc at ddatganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru yn dweud y byddai cyfyngiad cyflymdra 20 mya yn cael ei gyflwyno yn Llanon, ar yr A487 yn ardal yr ysgol gynradd. Dywedodd hefyd ei fod wedi gofyn iddynt am y diweddaraf ar y cais a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor am groesfan i gerddwyr yn y pentref a disgwylwyd eu hymateb.

**8. Proposed 20 mph Speed Limit**

The Clerk referred to a Welsh Government press release indicating that a 20 mph speed limit would be implemented in Llanon, on the A487 in the vicinity of the primary school. He also stated that he had asked about progress on the previous request made by the Council for a pedestrian crossing in the village and that their reply was awaited.

**9. Y Cyfleusterau Cyhoeddus**

Fe adroddodd y Clerc fod ymateb wedi dod o Gyngor Sir Ceredigion parthed eu bwriadau ar gyfer y cyfleusterau cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r drafodaeth ar y mater er mwyn galluogi'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards i wneud ymholiadau pellach.

**9. Public Conveniences**

The Clerk reported the response of Ceredigion County Council to the Council's enquiry as to their intentions for the public conveniences.

It was **RESOLVED** to defer consideration until the next meeting in order to enable County Councillor Dafydd Edwards to make further enquiries.

**10. Unrhyw Fater Arall**

**10.1** Gofynnodd y Cynghorydd L Lloyd y dylid cael eglurhad ai'r Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am y clawdd rheng Nebo a Trewen ar y Ffordd Dosbarth C gan fod angen ei dorri 'nol at bwrpas diogelwch y ffordd.

**10.2** Gofynnodd y Cynghorydd M Lawton am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf ar arian y deffibrilwyr a gedir gan y Cyngor.

**10.3** Cyfeiriodd y Cynghorydd I Reed at lamp stryd a ddisgrifiwyd i'r cyfarfod a oedd angen sylw. Dywedodd y Cynghorydd Lewis y byddai'n dilyn hwn i fyny.

**10. Any Other Business**

**10.1** Councillor L Lloyd requested that clarification be sought as to whether the hedge on the Class C Road between Nebo and Trewen was the responsibility of the County Council as it needed cutting back for road safety purposes.

**10.2** Councillor M Lawton requested an up-date at the next meeting on the defibrillators monies held by the Council.

**10.3** Councillor I Reed referred to a faulty street lamp as described to the meeting that needed attention. Councillor Lewis stated that he would follow this up.

**8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 3 Tachwedd 2015**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35 y.h.

**8. Date of Next Meeting – 3 November 2015**

The meeting concluded at 9.35 p.m.